

Jack Sergeant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

5 Ebrill 2023

Ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Deisebau

Annwyl Jack,

Rwyf fi a fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgor yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Deisebau 'Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Roedd yr adroddiad yn ystyriaeth bwerus a dadansoddol o rai o'r heriau pwysigaf sy'n wynebu rhieni biolegol sydd wedi bod mewn gofal.

Yn yr adroddiad rydych yn gwneud yr argymhelliad a ganlyn:

Argymhelliad 6. Dylai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fonitro'r cynnydd yn rheolaidd yn erbyn yr Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wella gofal cymdeithasol plant.

Ein hymateb: derbyn

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad pellgyrhaeddol i ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i "ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal". Felly, rydym wedi dechrau'r gwaith pwysig o fonitro'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn goruchwylio gofal cymdeithasol plant yng Nghymru, ac rydym yn ymrwmo i barhau i wneud hynny unwaith y byddwn wedi cwblhau'r ymchwiliad hwn fel rhan o'n ffocws parhaus ar weithredu a chyflawni polisiau.

Rydym yn disgwyl i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023. Bydd yr adroddiad yn nodi blaenoriaethau ar gyfer diwygio radical, a bydd yn defnyddio eich canfyddiadau a'ch argymhellion fel rhan o'n gwaith o gasglu tystiolaeth.



Rydym hefyd yn aros yn eiddgar am ymateb Llywodraeth Cymru i'ch adroddiad, sydd ar fin cael ei gyhoeddi yn ôl yr hyn a deallwn.

Os hoffech chi, neu eich deisebydd, gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor (SeneddPlant@Senedd.Cymru).

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Senedd Cymru
Welsh Parliament